COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD** – CYF. DLI 050

**Amseru:** Arferol
Angen penderfyniad erbyn 01/11/17 – cynhelir cyfarfod nesaf y Panel Sicrhau Ansawdd ar 09/11/17.

**Teitl:** Trosglwyddo Craffu ar Stopio a Chwilio

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Llywodraethu / Craffu

**Crynodeb Gweithredol:**

Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn craffu ar gofnodion Stopio a Chwilio, gyda Phrif Arolygydd sy'n arwain ar Stopio a Chwilio yn Nyfed-Powys yn goruchwylio. Tra bod AHEMGTA wedi cydnabod bod y broses graffu'n effeithiol, er mwyn cyflawni goruchwyliaeth mwy annibynnol o'r ffordd y mae digwyddiadau Stopio a Chwilio'n cael eu trin a'u hadrodd, argymhellir bod cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i Banel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd. Bydd y trosglwyddiad yn caniatáu i'r Panel Sicrhau Ansawdd ehangu eu gwaith craffu a chynyddu cysylltiad pobl ifainc yng ngwaith y Comisiynydd, gyda'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn parhau i roi arweiniad ar ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae arweinydd Stopio a Chwilio ac arweinydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn Heddlu Dyfed-Powys wedi cytuno i'r trosglwyddiad.

**Argymhelliad:**

Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo trosglwyddo craffu ar gofnodion Stopio a Chwilio o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i'r Panel Sicrhau Ansawdd o 1 Tachwedd 2017.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 1/11/2017